CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

IS - DDEDDFWRIAETH

# 2007 Rhif 24

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Cyfarwyddiadau'r Lefel Sŵn a Ganiateir (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'i gwneud* | *4 Ebril 2007* |
| *Yn dod i rym* | *5 Ebril 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 5 o Ddeddf Sŵn 1996, ac sy'n arferadwy bellach o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**1**) yn gwneud y Cyfarwyddiadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 5 Ebrill 2007 yn union ar ôl Cymeradwyaeth Dyfeisiau Mesur (Deddf Sŵn 1996) (Cymru) 2007 a'u henw yw Cyfarwyddiadau'r Lefel Sŵn a Ganiateir (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "BS 7445" ("*BS 7445*") yw'r Safon Brydeinig sy'n dwyn y teitl "Description and measurement of environmental noise - Part 1: Guide to quantities and procedures", a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ac a rifwyd BS 7445-1:2003;

mae "dB" ("*dB*") yn uned o lefel pwysedd sain sydd wedi'i phwysoli yn unol ag "A" a hefyd o

(**1**) Gweler erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

lefel pwysedd sain barhaus gyfatebol sydd wedi'i phwysoli yn unol ag “A” fel a geir yn BS 7445;

mae i'r ymadrodd “y lefel sŵn sylfaenol” (“*the underlying level of noise*”) yr un ystyr â’i ystyr ym mharagraff 8 o'r gymeradwyaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y teitl Cymeradwyaeth Dyfeisiau Mesur (Deddf Sŵn 1996) (Cymru) 2007.

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Cyfarwyddiadau hyn ac y mae'r ymadroddion Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn ymddangos yn Neddf Sŵn 1996 yr un ystyr yn y Cyfarwyddiadau hyn ag ystyr yr ymadroddion Saesneg hynny yn y Ddeddf honno.

**Y lefel a ganiateir**

**3.** Bydd lefel y sŵn y caniateir ei allyrru yn ystod oriau'r nos o annedd dramgwyddus neu o fangre dramgwyddus fel a ganlyn—

(a) pan na fo'r lefel sŵn sylfaenol yn fwy na 24 dB, bydd yn 34 dB;

(b) pan fo'r lefel sŵn sylfaenol yn fwy na 24 dB, bydd 10 dB yn fwy na'r lefel sŵn sylfaenol honno.

**Dirymu**

**4.** Mae'r cyfarwyddiadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 10 Gorffennaf 1997 o dan adran 5 o Ddeddf Sŵn 1996, i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, wedi'u dirymu.

Llofnodwyd

Dyddiad

*CARWYN JONES*
Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**NODYN 1.** Yn unol ag adran 5(2) o Ddeddf Sŵn 1996, y lefel a ganiateir fydd lefel sy'n gymwys i sŵn (a allyrrir o'r annedd dramgwyddus neu o fangre dramgwyddus) fel y'i mesurir o'r tu mewn i unrhyw annedd yn y cyffiniau (annedd yr achwynydd) â dyfais a gymeradwywyd ac a ddefnyddir yn unol ag unrhyw amodau y rhoddwyd y gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r gymeradwyaeth hon a'r amodau hyn wedi'u nodi yn y Gymeradwyaeth o dan adran 6 o'r Ddeddf o dan y teitl Cymeradwyaeth Dyfeisiau Mesur (Deddf Sŵn 1996) (Cymru) 2007.

**NODYN 2.** Mae dogfennau BS (Safonau Prydeinig) ar gael oddi wrth y Sefydliad Safonau Prydeinig yn 389 Chiswick High Road, Llundain W4 4AL.